Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Goronwy Owen

**Benllech
Ynys Môn
LL74 8SG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Goronwy Owen

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Goronwy Owen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 148 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 130 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 18 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 8.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 5.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 20.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2013 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/10/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 06/03/2023 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Goronwy Owen yn rhan o Ffederasiwn Gwêl Y Glannau gydag Ysgol Gymuned Moelfre. Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad cadarn ac yn hyrwyddo cydweithio fel tîm ar draws y safleoedd yn hynod lwyddiannus. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sydd wedi ei seilio ar sicrhau lefelau lles a safonau uchel, gyda phwyslais ar sicrhau cysondeb ym mhrofiadau disgyblion yr ysgolion unigol. Mae'r staff yn cydweithio'n agos iawn mewn timau addysgu ar draws y ffederasiwn i gynllunio profiadau dysgu buddiol ac ysgogol. O ganlyniad, mae'r addysgu yn gyson dda ym mron bob dosbarth.

Mae'r athrawon yn darparu gwersi sy'n ysgogi'r disgyblion, ac yn eu hannog i ddatblygu'n dysgwyr annibynnol yn effeithiol. Cânt eu cefnogi gan gymorthyddion sy'n hyrwyddo'r dysgu yn fedrus. Maent yn cynnig gofal ac arweiniad o safon uchel ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac anghenion emosiynol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu medrau llythrennedd yn llwyddiannus, ac erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n naturiol yn yGymraeg. Maent yn ysgrifennu'n bwrpasol mewn ffurfiau gwahanol. Er hynny, mae'r gorddefnydd o fframweithiau caeth yn golygu nad ydynt bob tro'n cymhwyso eu medrau ysgrifennu yn llawn mewn gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio medrau rhifedd yn hyderus, er enghraifft wrth gyfrifo gan ddefnyddio dulliau ysgrifenedig. Fodd bynnag, nid ydynt yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwaith ar draws y cwricwlwm mor gyson. Ar draws yr ysgolion, mae disgyblion yn datblygu medrau digidol cryf.

Mae arweinwyr yn adnabod ysgolion y ffederasiwn yn dda. O ganlyniad i brosesau clir ac ethos o hunanwerthuso gonest, mae ganddynt adnabyddiaeth gadarn o'r prif gryfderau a meysydd i'w datblygu.

## Argymhellion

A1 Lleihau'r defnydd o fframweithiau parod er mwyn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau ysgrifennu ymhellach mewn tasgau ar draws y cwricwlwm

A2 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

A3 Cydymffurfio'n llawn â'r canllawiau statudol ar fwyta'n iach mewn ysgolion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau tua’r un lefel a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran, oni bai am yn y Gymraeg lle mae eu medrau islaw yr hyn a ddisgwylir gan mai ychydig sy’n siarad Cymraeg adref. Mae’r rhan fwyaf, gan gynnwys disgyblion sydd ag ADY a’r rhai sydd yn gymwys am brydau ysgol di-dâl, yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn dwyn eu dysgu blaenorol i gof yn hyderus ac yn dyfalbarhau’n aeddfed â’u gweithgareddau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion y dosbarth Meithrin yn chwarae’n fodlon gyda’u ffrindiau. Maent yn datblygu medrau cymdeithasol cadarn ac yn ymateb yn aeddfed i’r disgwyliadau uchel sydd gan y staff. Maent yn gwrando’n dda wrth drafod sawl bloc fydd eu hangen i adeiladu tŵr mor dal â nhw ac yn canu caneuon cyfarwydd yn frwdfrydig. Maent yn datblygu medrau corfforol cadarn trwy weithgareddau fel reidio beiciau yn yr ardal allanol. Maent yn arddangos medrau modur mân effeithiol wrth osod dillad Mrs Wishi Washi ar y lein ac wrth ddal gwahanol offer lliwio yn ofalus i greu marciau.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion o bob oed yn gwrando’n aeddfed yn ystod eu gweithgareddau dysgu. Maent yn cydweithio mewn parau a grwpiau bach, gan drafod a chynnig syniadau am eu gwaith. Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn naturiol gan fynegi eu hunain yn eglur, Er enghraifft maent yn egluro sut i ddefnyddio’r dull ‘tri cyn fi’ wrth gyflawni eu heriau. Er hyn, mae ychydig o’r disgyblion sy’n llai hyderus wrth siarad yr iaith yn tueddu i ddefnyddio’r Saesneg ar adegau.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu’n briodol. Maent yn arddangos strategaethau darllen addas ac yn adeiladu geiriau’n gynyddol hyderus. Maent yn trafod eu testunau’n  aeddfed ac yn dangos chwilfrydedd gwirioneddol at ddarllen gan weld hiwmor yn y testun. Mae disgyblion mwy abl Blwyddyn 2 yn addasu goslef eu llais wrth bwysleisio rhannau o’r storïau sydd wedi eu gosod mewn dyfynodau.

Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 4 yn darllen yn bwyllog a llyfn a gyda lefel briodol o gywirdeb yn y ddwy iaith. Maent yn trafod gwahanol destunau a’u hoffter am wahanol ffurfiau ffuglen a ffeithiol. Maent yn defnyddio amrediad o ddulliau hunangywiro ac yn arddangos dealltwriaeth dda o’r testun. Mae llawer o ddisgyblion pen uchaf yr ysgol yn darllen yn aeddfed a hyderus. Maent yn trafod eu hoffter am wahanol lyfrau ac yn egluro pwy yw eu hoff awduron Cymraeg a Saesneg. Maent yn cymharu dau destun wedi eu seilio ar yr Wyddfa gan gyfeirio at eu gwahanol briodweddau. Fodd bynnag, mae tueddiad i leiafrif fod yn llai medrus wrth ddarllen testunau estynedig yn y Gymraeg.

Mae llawer o ddisgyblion dysgu sylfaen yn datblygu’n ysgrifenwyr annibynnol yn fuan. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn ysgrifennu am reolau diogelwch, gan arddangos gafael gynyddol gadarn ar sillafu ac atalnodi elfennol. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn ysgrifennu darn personol am y nyrs sy’n gofalu amdanynt pan fyddant yn sâl.

Pan gânt y cyfle, mewn gwersi iaith, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn creu darnau ysgrifennu estynedig mewn ffurfiau amrywiol. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu o safbwynt person yn dioddef o'r salwch yn ystod cyfnod y pla du wrth greu dyddiadur. Mae'r gwaith wedi ei greu'n hynod gelfydd ac yn arddangos sensitifrwydd arbennig. Er hyn, nid ydynt bob tro'n cymhwyso eu medrau ysgrifennu mewn gwaith ar draws y cwricwlwm hyd eithaf eu gallu oherwydd gorddefnydd fframweithiau ysgrifennu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol fel rhif, siâp a data. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol er mwyn datrys problemau'n llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn dehongli gwybodaeth ar fatiau mathemateg yn annibynnol ac yn defnyddio dulliau ysgrifenedig i gyfrifo'n gywir. Yn yr ychydig achosion cryfaf, maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwaith ar draws y cwricwlwm ar lefel addas, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 2 gasglu gwybodaeth am hoff ffrwyth eu ffrindiau mewn siart tali a chreu graffiau i ddangos y wybodaeth. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r disgyblion yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon bwriadus yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm dros gyfnod.

Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau cryf wrth ddefnyddio offer digidol ar gyfer gwahanol ddibenion. Mae disgyblion dysgu sylfaen yn defnyddio codau QR i ddod o hyd i gyfarwyddiadau wrth iddynt ddethol lefel yr her sydd fwyaf addas iddynt yn ystod eu tasgau. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio cyfrifiaduron llechen er mwyn recordio eu gwaith i'w rannu â gweddill y dosbarth. Mae llawer o ddisgyblion y dosbarthiadau hŷn yn defnyddio offer digidol yn fedrus wrth ystyried eu gwaith eu hunain a'u cymheiriaid ac yn gwerthuso i ba raddau maent wedi ymateb i'r meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg. Er enghraifft, maent yn defnyddio lliwiau gwahanol, gan uwcholeuo'r testun mewn lliwiau penodol wrth sicrhau eu bod wedi atalnodi'r gywir, a chynnwys ansoddeiriau er mwyn cyfoethogi'r testun.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Er enghraifft, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4 yn creu darluniau effeithiol o'r môr yn sgil eu gwaith thema ar chwedlau Cymru. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn creu modelau 3 dimensiwn o'r Wyddfa fel rhan o'u gwaith thema Hen Wlad Fy Nhadau. Mae dosbarthiadau o ddisgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu eu medrau cerddorol trwy gyfres o weithdai iwcalili lle dysgant ymwybyddiaeth o rhythm wrth gyd-chwarae.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hapus yn yr ysgol. Maent yn ymddwyn yn gwrtais ac yn dangos parch at eraill. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gwerthfawrogi'r safon uchel o ofal maent yn ei dderbyn gan bob aelod o staff. Maent o'r farn fod oedolion yn gwrando arnynt, boed hynny i leihau unrhyw bryderon neu i'w harwain drwy agweddau ansicr o'u tasgau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. O ganlyniad, maent yn canolbwyntio'n dda ar eu gwaith. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn colli ffocws yn hystod eu gweithgareddau ac angen eu hail-gyfeirio at eu tasgau. Un o nodweddion cryf yr ysgol yw'r modd y mae disgyblion yn barod i gefnogi ei gilydd wrth ddatrys problemau o fewn eu gweithgareddau, yn

enwedig drwy'r dull 'tri cyn fi'. Mae hyn yn magu eu hannibyniaeth yn effeithiol ac yn darparu cyfleoedd buddiol iddynt gydweithio i drafod agweddau o'u dysgu ymysg ei gilydd. O ganlyniad, mae awyrgylch gefnogol ac adeiladol yn treiddio drwy'r ysgol ac mae hyn yn esgor ar ymdeimlad cryf o weithredu fel teulu cytûn.

Mae'r gwahanol grwpiau arwain, gan gynnwys y dewiniaid digidol, yn cyfrannu'n sylweddol at lais y plentyn o fewn gweithgareddau'r ysgol. Er enghraifft, maent yn creu fideo i rieni i hyrwyddo gweithgareddau Plant Mewn Angen. Mae llysgenhadon yr ysgol yn gweithio'n ddiwyd i wella agweddau o ddarpariaeth yr ysgol, gan gynnwys annog disgyblion i ddefnyddio'r offer chwaraeon yn ystod amseroedd egwyl. Mae'r cyfleoedd hyn yn effeithiol wrth ddatblygu medrau arwain a chydweithio'r disgyblion wrth iddynt wneud penderfyniadau cytûn. Yn ogystal, mae aelodau'r cyngor ysgol, sy'n gweithredu fel un corff gydag aelodaeth o'r ddwy ysgol, yn cyfrannu'n fuddiol i'r broses o sicrhau cysondeb a chydweithio ar draws y ffederasiwn.

Mae llawer o'r disgyblion yn cefnogi gweithgareddau cymunedol, er enghraifft drwy gasglu arian at elusennau cenedlaethol. Maent yn mwynhau cystadlu yn eisteddfod leol Marianglas wrth gynhyrchu gwaith celf a chrefft yn fedrus. Mae'r profiadau hyn yn effeithiol wrth ddwysáu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o'u cymuned a sut i fod yn ddinasyddion cydwybodol.

Mae'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i gyfrannu at yr hyn yr hoffent ei ddysgu o fewn eu themâu. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus gyda staff a chyfoedion. Maent yn ymateb yn briodol i'r adborth llafar o fewn y gwersi, ac o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wella o fewn eu gwaith.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n iach, gan gynnwys sut i gadw'n ddiogel ar y we. Er enghraifft, maent yn creu posteri gwybodus yn hysbysu pwysigrwydd diet cytbwys fel rhan o thema dymhorol 'O'r Pridd I'r Plât'. Mae'r disgyblion yn mwynhau tyfu llysiau yng ngardd yr ysgol cyn rhoi'r cynnyrch i'r gogyddes ar gyfer prydau bwyd. O ganlyniad, caiff y disgyblion brofiad gwerthfawr o wybod sut i ddatblygu medrau hunangynhaliol. Maent yn cymryd rhan yn egnïol mewn gwersi addysg gorfforol ac mewn sesiynau rhedeg ar dir yr ysgol, gyda rhai yn ymuno â chlybiau chwaraeon yn yr ardal.

Mae disgyblion yn mynychu'r ysgol yn fwy rheolaidd eleni o gymharu â'r llynedd, pan gafodd pandemig COVID-19 effaith negyddol yn genedlaethol ar bresenoldeb mewn ysgolion.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr athrawon berthnasoedd gwaith da â'r disgyblion. Maent yn trin pob disgybl yn gyfartal a gyda pharch priodol, sy'n creu ethos gofalgar o fewn y dosbarthiadau, ac yn creu awyrgylch ddysgu effeithiol. Mae safon yr addysgu yn gyson dda ym mron bob un dosbarth. Mae'r athrawon yn darparu ystod o weithgareddau pwrpasol er mwyn ymateb i anghenion y disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob disgybl; er enghraifft, maent yn disgwyl i'r disgyblion ddangos agweddau positif at eu dysgu. Maent yn annog disgyblion i weithio'n effeithiol yn unigol, mewn parau ac mewn grwpiau bychain. Mewn ychydig o achosion, nid yw'r rheolaeth dosbarth yn ddigon cadarn, ac o ganlyniad, mae ychydig iawn o ddisgyblion yn aflonyddu ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar eu tasgau.

Mae'r athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau holi treiddgar sy'n effeithiol wrth adalw'r dysgu blaenorol a llywio cyfeiriad y dysgu yn bwrpasol. Mae'r holi effeithiol hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer asesu dealltwriaeth y disgyblion yn fedrus. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion. Maent yn cynnig adborth pwrpasol ar lafar, yn ysgrifenedig ac yn ddigidol sy'n darparu arweiniad buddiol i ddisgyblion ar yr hyn maent yn ei wneud yn dda a beth sydd angen ei wella.

Mae'r athrawon yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu yn ddiddorol ac ysgogol. Mae'r cwricwlwm yn gytbwys ac yn eang ac yn ateb gofynion y Cwricwlwm i Gymru yn briodol. Mae'r athrawon yn cynnwys barn y disgyblion yn ystyrlon wrth gynllunio themâu sy'n ennyn diddordeb bron pob un disgybl yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau creadigol y disgyblion drwy greu teganau o Oes Fictoria. Ym mlynyddoedd uwch yr ysgolion, mae'r disgyblion yn cael budd o greu modelau o ficro organebau allan o glai.

At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion. Er enghraifft, maent yn cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau gwrando a siarad Cymraeg disgyblion dros gyfnod. Maent yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu medrau ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau gwahanol mewn gwersi iaith. Fodd bynnag, mae'r defnydd o fframweithiau ysgrifennu yn llesteirio'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n rhydd mewn gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn cynllunio cyfresi o wersi buddiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol yn drylwyr. Maent yn cael cyfleoedd i gymhwyso'r medrau hyn trwy'r defnydd o fatiau sy'n gosod heriau mathemategol addas. Maent yn darparu ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso medrau rhifedd yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, ond ar y cyfan, nid yw'r gweithgareddau hyn yn datblygu medrau rhifedd dysgwyr yn ddigon cydlynus dros amser. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn creu gwefan am Yr Wyddfa gan fewnforio mapiau, delweddau a thestun.

Mae'r athrawon yn defnyddio ardaloedd yr ysgol yn bwrpasol i gyfoethogi'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cael cyfleoedd cyson i gydweithio a datrys problemau yn yr ardaloedd tu allan fel rhan o'u heriau wythnosol. Mae hyn yn cynnwys datblygu gardd yr ysgol wrth blannu llysiau.

Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth o deithiau addysgol i ehangu'r ddealltwriaeth o'r hyn mae disgyblion yn ei ddysgu. Er enghraifft, fel rhan o'u gwaith ar ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o'u cynefin, mae disgyblion yn mynd ar daith natur i Gwm Idwal. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ymwelwyr ddod i'r ysgol i rannu eu harbenigedd â'r disgyblion. Er enghraifft, mae artist lleol yn cefnogi disgyblion i greu addurniadau Nadolig gan ddefnyddio'r arddull batic.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion a staff yn hynod effeithiol. Mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodwedd arbennig. Caiff hyn ei adlewyrchu yn ymddygiad da a chwrteisi y disgyblion ac agweddau positif y rhan fwyaf tuag at eu dysgu. Mae athrawon a chymorthyddion yn sicrhau bod disgyblion sydd ag anghenion addysgol neu emosiynol yn derbyn cefnogaeth o ansawdd uchel. Mae hyn yn sicrhau bod bron

bob disgybl yn llwyddo i ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae'r staff yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac yn darparu cymorth pwrpasol a hynod effeithiol iddynt. O dan arweiniad yr athrawon a'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol, mae'r cymorthyddion yn cefnogi'r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau ymyrraeth yn llwyddiannus i wella lles a datblygu medrau cymdeithasol disgyblion. Maent yn darparu ystod o raglenni pwrpasol sy'n datblygu medrau llythrennedd disgyblion yn gelfydd. Mae'r sesiynau ymarferol yn rhoi cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu dealltwriaeth o eirfa a phatrymau cystrawennol Cymraeg. Enghraifft nodedig o hyn yw'r sesiynau garddio, lle rhoddir cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion ymweld â'r siop leol i brynu cynnyrch i wneud peli braster i fwydo'r adar. Mae'r sesiynau ymdawelu (check-in) ar gychwyn y diwrnod ysgol a'r defnydd pwrpasol o'r Ystafell Enfys yn effeithiol o ran sicrhau bod disgyblion yn cael amser i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt cyn cychwyn eu tasgau addysgol. Mae gan y staff berthynas waith gynhyrchiol â rhieni disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol. Maent yn cynnwys y rhieni yn y broses adolygu cynnydd eu plant cyn gosod targedau cyrhaeddiad pellach ar eu cyfer.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion uniaethu â'r gymuned leol a'r byd ehangach. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol, er enghraifft trefnu achlysuron cymunedol gan gynnwys cynnal prynhawn bingo i drigolion y pentref. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion cydwybodol a sensitif. Er enghraifft, maent yn casglu nwyddau i drigolion sy'n dioddef o effaith y rhyfel yn Wcráin ac yn mynychu gwasanaethau ysgol sy'n hybu cydraddoldeb.

Trwy themâu ysgogol ac ymweliadau addysgol, mae'r ysgol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru yn dda. Er enghraifft, mae'r staff yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymweld â lleoliadau hanesyddol, gan gynnwys cestyll Biwmares a Phenrhyn, ac yn eu haddysgu am chwedlau traddodiadol Cymru fel Cantre'r Gwaelod. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i fynd ar deithiau preswyl i ganolfannau'r Urdd, sy'n effeithiol wrth ddatblygu eu medrau siarad Cymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol.

Mae pwyllgorau'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud penderfyniadau pwysig, gan gynnwys rhedeg y trac fel rhan o weithgarwch cadw'n heini dyddiol yr ysgol a chydweithio â Cadw Cymru'n Daclus er mwyn gwella ardaloedd allanol yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion hŷn ddatblygu eu dealltwriaeth o fenter busnes, er enghraifft trwy weu hetiau a chreu tlwsdlysau i'w gwerthu mewn prynhawn panad i'r gymuned.

Mae arweinwyr yn cynllunio profiadau pwrpasol i ddisgyblion y ddwy ysgol gymryd rhan mewn cystadlaethau a pherfformiadau o dan faner Ffederasiwn Gwêl Y Glannau. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion y ddwy ysgol yn ymuno â'i gilydd i greu un côr a parti llefaru i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd. Yn ogystal, rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion y ffederasiwn gystadlu ar y cyd mewn twrnameintiau chwaraeon a cherdded ochr wrth ochr yn ystod gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi.

Mae'r uwch dîm rheoli yn sicrhau bod diwylliant diogelu cadarn yn treiddio trwy'r ysgol. Mae safle'r ysgol yn fan ddiogel. Mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o'r prosesau diogelu ac maent yn cael hyfforddiant pwrpasol yn flynyddol. Mae arweinwyr yn ymateb yn gadarn i unrhyw achosion gan gydweithio ag asiantaethau eraill yn effeithiol pan fo'n briodol. Mae gweithdrefnau'r ysgol i fonitro presenoldeb a disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr yn gadarn. Mae'r arweinwyr yn cysylltu â'r rheini yn brydlon i drafod unrhyw bryder ac yn defnyddio swyddog presenoldeb a lles yr awdurdod lleol pan fo angen.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir wedi ei seilio ar ddarparu addysg o safon uchel i'r holl ddisgyblion gyda phrofiadau cyfoethog a chyson ar draws ysgolion y ffederasiwn. Gyda chefnogaeth penaethiaid cynorthwyol y ddwy ysgol, mae'r pennaeth yn creu a chynnal hinsawdd o gydweithio cryf. Mae'r holl staff yn gweithio fel tîm ar draws y ffederasiwn, gan gynnwys cydweithio mewn timau addysgu i gyd-gynllunio. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth gref o ran eu lles, ynghyd â phrofiadau dysgu buddiol a chyson. Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelu yn llwyddiannus. Maent yn rhoi pwyslais cadarn ar gefnogi iechyd a lles disgyblion, ac o ganlyniad, mae gan yr ysgol hinsawdd ofalgar.

Mae gan yr ysgolion brosesau hunanwerthuso trylwyr sy'n seiliedig ar ddadansoddi tystiolaeth gynradd fel craffu ar lyfrau, a theithiau dysgu. Yn ystod y cyfnodau clo, bu i'r ysgol barhau â phrosesau monitro gwerthfawr, fel arsylwi sesiynau dysgu byw ar-lein. Mae hyn yn golygu bod gan arweinwyr adnabyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr yn holi barn rhanddeiliaid trwy holiaduron ac yn addasu'r ddarpariaeth, lle bo'n briodol. Er enghraifft, penderfynwyd ailgyflwyno nosweithiau rhieni wyneb i wyneb ar ôl y pandemig COVID-19 yn dilyn adborth gan rieni.

Mae arweinwyr yn cynllunio'n fwriadus er mwyn fynd i'r afael â meysydd i'w gwella ar draws y ffederasiwn. Maent yn adnabod camau gweithredu pendant ac yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud i wireddu'r camau gwella. Dros gyfnod, maent wedi dangos y gallu i arwain ar welliannau i'r darpariaeth sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion. Er enghraifft, maent wedi cyflwyno cynllun addysg cydberthnasoedd a rhywioldeb sy'n cyfrannu at wella dealltwriaeth dysgwyr o gydberthnasoedd iach. Wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr ysgol, mae arweinwyr yn rhoi sylw addas i flaenoriaethau cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru.

Mae gan yr ysgol brosesau rheoli perfformiad cadarn ar gyfer yr holl staff. Maent yn gosod targedau sy'n plethu blaenoriaethau presennol yr ysgol a dyheadau'r staff. O ganlyniad, mae gan yr holl staff ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Mae arweinwyr yn trefnu cyfleoedd datblygiad proffesiynol buddiol ar gyfer staff. Er enghraifft, mae staff wedi datblygu eu gallu i gefnogi anghenion emosiynol dysgwyr yn dilyn hyfforddiant diweddar. Mae arweinwyr yn annog staff i ystyried y camau nesaf yn eu gyrfaoedd ac yn hwyluso cyfleoedd iddynt fynychu hyfforddiant addas. Er enghraifft, mae aelodau o staff wedi derbyn budd o fynychu sesiynau rheolaeth ganol ac ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol er mwyn datblygu medrau arweinyddiaeth.

Mae'r corff llywodraethol yn gweithio'n briodol fel cyfaill beirniadol. Yn hanesyddol, maent wedi cyfrannu'n llawn i brosesau hunanwerthuso'r ysgol, gan gynnwys ymgyfarwyddo ag agweddau o'r ddarpariaeth yn ystod teithiau dysgu. Yn dilyn y pandemig COVID-19, maent yn dechrau ailgydio â'r dyletswyddau mwy ymarferol. Maent yn sicrhau bod y bwyd a'r ddiod a ddarperir gan yr ysgol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol am fwyta'n iach yn eu cyfanrwydd, er enghraifft wrth ganiatáu i ddisgyblion yfed sgwash mewn dosbarthiadau.

Mae arweinwyr yn rheoli cyllideb yr ysgol yn briodol. Maent yn gwneud penderfyniadau addas am wariant er budd y disgyblion. Er enghraifft, maent yn defnyddio rhan o'r grant datblygu disgyblion i ddarparu sesiynau therapi chwarae buddiol i gefnogi lles disgyblion.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau cadarn o ran hyrwyddo'r Gymraeg. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel, gan gynnwys creu diwylliant o siarad Cymraeg mewn gwersi a chlybiau allgwricwlaidd. Maent yn trefnu sesiynau buddiol i rieni ddysgu am fanteision dwyieithrwydd. Mae arweinwyr yn creu a chynnal partneriaethau defnyddiol â rhieni. Darperir sesiynau briffio buddiol ar gyfer rhieni newydd wrth i'w plant gychwyn yn y dosbarthiadau meithrin a derbyn. Er enghraifft, maent yn derbyn gwybodaeth am ddulliau'r ysgol o gyflwyno medrau darllen cynnar a medrau rhifedd.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW    neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  11/05/2023